OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 317

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2010

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2010, a deuant i rym ar 28 Chwefror 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran awdurdodau yng Nghymru.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2010.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 1992" ("*the 1992 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

### Cyfrifo anghenion cyllideb (awdurdodau bilio)

**2.** Mae adran 32 o Ddeddf 1992 yn effeithiol fel pe bai—

(a) y geiriau "or relevant special grant" wedi eu hepgor yn is-adran (3)(a)(**1**); a

(b) yr is-adran ganlynol wedi ei mewnosod ar ôl is-adran (12)(**2**)—

"(12A) In this section and section 33 below—

(a) references to sums payable for the financial year in respect of redistributed non-domestic rates are references to sums so payable in accordance with the Local Government Finance Report (No.1) 2010-2011 (Final Settlement-Councils) approved by resolution of the National Assembly for Wales pursuant to section 84H(2)(**3**) of, and paragraph 11B(1)(**4**) of Schedule 8 to, the Local Government Finance Act 1988 on 12 January 2010; and

(b) references to sums payable for the financial year in respect of revenue support grant are references to sums so payable in accordance with that report.".

### Cyfrifo swm sylfaenol y dreth gyngor (awdurdodau bilio)

**3.** Mae adran 33(1) o Ddeddf 1992(**5**) yn effeithiol fel pe bai'r geiriau "or relevant special grant" yn eitem P wedi eu hepgor.

(**1**) Diwygiwyd adran 32(3)(a) gan baragraff 4 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol a Chronfeydd) 1994 (O.S. 1994/246) a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol a Chronfeydd) 1995 (O.S. 1995/234). Fe'i haddaswyd hefyd o ran y flwyddyn ariannol 2009–2010 gan reoliad 2(a) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/267 (Cy.30)).

(**2**) Addaswyd adran 32 hefyd gan reoliad 2(b) o O.S. 2009/267 (Cy.30) i gael effaith fel pe bai adran newydd (12A) wedi ei mewnosod o ran y flwyddyn ariannol 2009–2010.

(**3**) 1988 p.41; amnewidiwyd adran 84H (yn lle adran 84H fel y'i mewnosodwyd gan adran 40(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26) ac Atodlen 2 iddi) gan erthygl 3 o Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) 2007 (O.S. 2007/1388) ac Atodlen 1 iddo.

(**4**) Amnewidiwyd paragraff 11B(1) (yn lle paragraff 11B(1) fel y'i mewnosodwyd gan adran 40(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ac Atodlen 2 iddi) gan erthygl 3 o O.S. 2007/1388 ac Atodlen 1 iddo.

(**5**) Diwygiwyd adran 33(1) gan O.S. 1994/246 ac O.S. 1995/234. Fe'i haddaswyd hefyd o ran y flwyddyn ariannol 2009–2010 gan reoliad 3 o O.S. 2009/267 (Cy.30).

**Cyfrifo anghenion cyllideb (prif awdurdodau praeseptio)**

**4.** Mae adran 43 o Ddeddf 1992 yn effeithiol fel pe bai—

(a) yn is-adran (3)(a)(i)(**6**)—

(i) y geiriau "relevant special grant" wedi eu hepgor; a

(ii) y geiriau "floor funding" wedi eu mewnosod cyn "or police grant;"; a

(b) yr is-adrannau canlynol wedi eu mewnosod ar ôl is-adran (6D)(**7**)—

"(6E) In this section and section 44 below—

(a) references to sums payable for the financial year in respect of redistributed non-domestic rates are references to sums so payable in accordance with the Local Government Finance Report (No.2) 2010-2011 (Final Settlement-Police Authorities) approved by resolution of the National Assembly for Wales pursuant to section 84H(2) of, and paragraph 11B(1) of Schedule 8 to, the Local Government Finance Act 1988 on 9 February 2010; and

(b) references to sums payable for the financial year in respect of revenue support grant are references to sums so payable in accordance with that report.

(6F) In this section and section 44 below "floor funding" means grant payable to a major precepting authority by the Secretary of State in addition to the police grant referred to in subsection (6C).".

**Cyfrifo swm sylfaenol y dreth gyngor (prif awdurdodau praeseptio)**

**5.** Mae adran 44(1) o Ddeddf 1992(**8**) yn effeithiol fel pe bai, yn eitem P—

(a) y geiriau "relevant special grant" wedi eu hepgor; a

(b) y geiriau "floor funding" wedi eu mewnosod cyn "or police grant;".

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

11 Chwefror 2010

(**6**) Diwygiwyd adran 43(3)(a) gan O.S. 1994/246 ac O.S. 1995/234. Fe'i haddaswyd hefyd o ran y flwyddyn ariannol 2009–2010 gan reoliad 4(a) o O.S. 2009/267 (Cy.30).

(**7**) Addaswyd adran 43 gan reoliad 4(b) o O.S. 2009/267 (Cy. 30) i gael effaith fel pe bai is-rannau newydd 43(6E) a (6F) wedi eu mewnosod o ran blynyddoedd ariannol 2009–2010.

(**8**) Diwygiwyd adran 44(1) gan O.S. 1994/246 ac O.S. 1995/234. Fe'i haddaswyd hefyd o ran y flwyddyn ariannol 2009–2010 gan reoliad 5 o O.S. 2009/267 (Cy. 30).